
Urdd

# Adroddiad Blynyddol 2018-19

Urdd Gobaith Cymru




DISCOVERY




# Cynnwys

Uchelfannau ..... 4
Amdanom ni ..... 6
Adroddiad Cadeirydd ..... 7
Adroddiad Prif Weithredwr ..... 8
Adroddiad y Llywydd ..... 9
Astudiaeth Achos 1 ..... 10
Astudiaeth Achos 2 ..... 11
Adroddiad Ieuenctid, Cymuned a Chyfathrebu ..... 12
Adroddiad Eisteddfod a Chwaraeon ..... 13
Astudiaeth Achos 3 ..... 14
Astudiaeth Achos 4 ..... 15
Adroddiad Glan-llyn ac Adroddiad Caerdydd ..... 16
Adroddiad Llangrannog ..... 17
Astudiaeth Achos 5 ..... 18
Astudiaeth Achos 6 ..... 19
Adroddiad y Trysorydd ..... 20
Noddwyr a Phartneriaid ..... 21
Ffynonellau Incwm ..... 22
Gwybodaeth Ariannol ..... 24
Canlyniad Ariannol ..... 28

**Trosiant o £12.9 miliwn**

**313 aelod o staff**

**56,792 o aelodau**

**Cyhoeddi adroddiad newydd yn nodi mai £25.5m oedd effaith economaidd Urdd Gobaith Cymru ar Gymru yn 2017-18**

**Cofrestrwyd dros 65,000 o enwau ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac CDT Eisteddfod yr Urdd 2018**

**60% o'r rheiny sydd yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau chwaraeon yn ferched**


**Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod swyddogol o wyliau i staff yr Urdd**

**Dros 49,000 wedi ymweld â Gwersylloedd yr Urdd**

**Negeseuon Twitter yr Urdd yn cael eu gweld 242,000 o weithiau mewn mis**







# Amdanom ni

Mae Urdd Gobaith Cymru yn Gorff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol sydd â dros 56,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Darperir cyfleoedd i blant a phobl ifanc Cymru fwynhau profiadau chwaraeon, diwylliannol, cymunedol a phreswyl drwy gyfrwng y Gymraeg, fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ferched a dynion ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Erbyn hyn, mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers ei sefydlu yn 1922. Nid oes modd gor-bwysleisio pwysigrwydd y sefydliad yng Nghymru. Mae ei gyfraniad i genedlaethau yng Nghymru, i fywydau, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd, wedi bod yn anferth.



# Adroddiad y Cadeirydd

## Dyfrig Davies

**Fel Cadeirydd yr Urdd, fe ges i'r fraint eleni eto i fod yn rhan o gymaint o wahanol weithgareddau'r mudiad. Mae gan yr Urdd botensial i gyffwrdd â bywydau pobl ifanc Cymru i gyd – drwy ddiwylliant, chwaraeon, gwaith dyngarol, prentisiaethau, profiadau ein gwersylloedd, cyfleoedd teithio a bod yn rhan o wahanol brosiectau. Ein dyletswydd ni fel cefnogwyr y mudiad yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle hwnnw, a dyna pam sefydlwyd 'Cronfa i Bawb' er mwyn cynnig cymorth ariannol i deuluoedd incwm isel, i dalu am wyliau yng ngwersylloedd yr Urdd dros yr haf. Yn ein digonedd, mae mor bwysig rhoi er mwyn cynorthwyo eraill. Fe fyddwn yn adeiladu ar hyn y flwyddyn nesaf ac mae ein diolch yn fawr i'r noddwyr a'n cefnogwyr. Mae cefnogaeth pawb, gan gynnwys y rhai sy'n cymynroddi, yn hynod o werthfawr. Diolch.**

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ariannol a fu, mae'n braf cael nodi llwyddiant mewn cynifer o feysydd. Ond nid mudiad i orffwys ar ein rhwyfau yw mudiad yr Urdd, ond un lle rydym yn gyson yn holi ein hunain am faint ein llwyddiant a sut gallwn ni wella eto. Daw hyn oherwydd ein hawydd i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant ein gwlad, gan gynnig mwy a mwy i'n haelodau. Diolch i arweiniad cadarn ein Prif Weithredwr, Siân Lewis, a pharodrwydd y staff i fod yn rhan o'r deinameg newydd yma sy'n ein gyrru ymlaen. Diolch o waelod calon hefyd i'r holl wirfoddolwyr. Hebddyn nhw, ni fyddai'n bosib cynnig cymaint o brofiadau gwych i'n haelodau.

Bu'n flwyddyn lle adeiladwyd ar yr awydd i fynd â neges yr Urdd, yn arbennig ym maes cyd-ddyn, yn rhyngwladol. Mae hyrwyddo Cymru drwy weithgaredd ac ymroddiad ein pobl ifanc, ledled y byd, yn hynod o bwysig. Mae'r partneriaethau, y cysylltiadau a'r profiadau yn rhai yr ydym wir yn eu gwerthfawrogi ac yn rhai yr ydym am ychwanegu atyn nhw. Mae'n gyffrous, yn addas yn y cyfnod mawr hwn o ansicrwydd gwleidyddol, ac yn bwysig wrth feddwl am le Cymru a'r Gymraeg yn y byd.

Daeth cyfnod Nia Hâf i ben fel Llywydd yr Urdd, a chroesawyd Ethan Williams i'r llywyddiaeth. Diolch i Nia, Ethan a chriw gweithgar Bwrdd Syr IfanC a'r Fforymau Ieuenctid am eu brwdfrydedd, eu gwaith ac am ein gwthio ni y rhai hŷn, ymlaen. Fe fydd y canmlwyddiant yn 2022 yn gyfle nid yn unig i edrych yn ôl ond yn bwysicach fyth i edrych tuag at y dyfodol. Mae'r paratoadau yn mynd yn eu blaen nawr a'r bobl ifanc fydd yn arwain.

Diolch eleni eto – un ac oll, am eich cefnogaeth. ymlaen, i herio'n hunain i fod yn fwy, yn well a mwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Diolch am eich cefnogaeth, parhawn i weithio'n galed.

# Adroddiad y Prif Weithredwr
## Siân Lewis

Mae'r flwyddyn gyntaf lawn yn fy swydd fel Prif Weithredwr wedi bod yn flwyddyn a hanner, mae wedi mynd yn gyflym tu hwnt a dw i wedi mwynhau pob munud! Hoffwn ddiolch i holl staff a gwirfoddolwyr diflino'r Urdd am eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Dw i'n hyderus o ddyfodol llwyddiannus i'r Urdd ag ynghyd â pharhau i wasanaethu ein cynulleidfa graidd, mae potensial i greu cyfleoedd newydd, amrywiol fydd yn cyrraedd cynulleidfaoedd gwahanol er mwyn hyrwyddo brand yr Urdd yn ehangach ar draws Cymru a thu hwnt.

Gan edrych yn ôl dros y flwyddyn hoffwn nodi rhai o'm huchelfannau personol:

**£6.5 miliwn o fuddsoddiad i ddatblygu gwersylloedd yr Urdd**
Roeddem yn hynod ddiolchgar o sicrhau £2.75 miliwn gan Lywodraeth Cymru gyda'r Urdd yn darparu'r arian cyfatebol er mwyn i wersyll Glan-llyn ddatblygu Canolfan Addysgol newydd sbon ac uwchraddio cyfleusterau'r Ganolfan Hyfforddi Gweithgareddau Dŵr; a chynllun 'Calon y Gwersyll' lle bydd Gwersyll Llangrannog yn gweithredu cynllun i drawsnewid ei isadeiledd allweddol.

**Urdd Gobaith Cymru yn werth £25.5 miliwn i economi Cymru yn 2017-18**
Yn dilyn ymchwil gan gwmni ymchwil Arad cadarnhawyd mai £25.5 miliwn oedd effaith economaidd yr Urdd ar Gymru yn 2017-18. Rhagwelir y bydd cynnydd pellach yng ngwerth yr Urdd i economi Cymru yn y dyfodol - £27.8 miliwn yn 2018-19, gydag amcangyfrif o £31 miliwn yn 2019-20.

**Sefydlu Adran Brentisiaethau'r Urdd**
Gosodwyd nod o greu 100 o brentisiaethau erbyn 2022 gan olygu mai'r Urdd fydd un o'r cyflogwyr 3ydd sector sy'n cynnig y nifer uchaf o brentisiaethau trwy'r Gymraeg yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn golygu ehangu i feysydd newydd fel marchnata, digwyddiadau, dylunio a gofal cwsmer.

**Ymgyrch lwyddiannus i adfywio Gwersylloedd Haf yr Urdd**
Mis Hydref aethpwyd ati i hyrwyddo ein hymgyrch newydd i adfywio Gwersylloedd Haf yr Urdd. Fy mwriad, dros y tair blynedd nesaf ydy sicrhau fod Gwersylloedd Haf yr Urdd yn llawn dop o blant a phobl ifanc o Gymru a thu hwnt.

**Llwyddiant wrth gyrraedd targed 'Cyfle i Bawb' - Cronfa Newydd Gwersylloedd Haf yr Urdd**

Yn yr Eisteddfod Genedlaethol mis Awst lansiodd yr Urdd ymgyrch newydd i sicrhau bod rhai o blant a phobl ifanc mwyaf difreintiedig Cymru yn medru mynychu ein Gwersylloedd Haf yn 2019 drwy sefydlu prosiect 'Cyfle i Bawb - Cronfa Gwersyll Haf yr Urdd'. Y nod yw bod 100 o blant a phobl ifanc yn derbyn y profiad unigryw hwn gan ddenu nawdd gan gwmnïau masnachol, unigolion a sefydliadau.

**Gwobrau amrywiol**
Yn ystod y flwyddyn llwyddodd yr Urdd i dderbyn llu o wobrau gan gynnwys rhai ym maes Adnoddau Dynol a Phrentisiaethau a daeth prosiect 'Patagonia' i'r brig yng nghategori Gwobr Hyrwyddo Treftadaeth a Diwylliannau yng Nghymru a Thu Hwnt yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid 2018.

**Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau**
Rwy'n falch iawn hefyd nodi fod y bwlch rhwng cyflogau rhywiau o fewn yr Urdd wedi cau rhwng 2017 a 2018 gyda chydbwysedd da rhwng cyflogau rhywiau yn y graddfeydd canolradd ac uwch. Rwy'n awyddus i sicrhau parhad i'r gwaith o ddatblygu ein hadran Adnoddau Dynol gan sicrhau fod yr Urdd yn gyflogwr teg a blaenllaw i'r dyfodol.

**Eisteddfod wahanol yn Llanelwedd**
Gwych oedd ymweld â maes y sioe yn Llanelwedd eleni a braf iawn hefyd nodi fod aelodaeth yr Urdd yn ardal Brycheiniog a Maesyfed wedi mwy na dyblu yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i ymweliad yr Eisteddfod.

**Chwaraeon Cymunedol**
Cyfrifwyd fod 12,000 o blant a phobl ifanc bob wythnos yn ymwneud â Chlybiau Chwaraeon Cymunedol yr Urdd sef y mwyaf erioed yn ein hanes.

Dim ond rhai sydd wedi eu nodi uchod, yn wir, mae nifer helaeth o brosiectau a chynlluniau cyffrous yn ymwneud â'n pobl ifanc ar waith yn gyson drwy'r Urdd a dros y flwyddyn nesaf edrychaf ymlaen at ddatblygu ein harlwy i blant Cymru.

Gan edrych ymlaen at y dyfodol,

Siân



# Adroddiad y Llywydd Ethan Williams

**Wel, dywedodd pawb y byddai'r flwyddyn yma'n gwibio heibio ac yn wir mae hi wedi. Ac am flwyddyn! Dw i wedi elwa mwy yn fy mlwyddyn fel Llywydd yr Urdd nag unrhyw flwyddyn arall yn fy mywyd. Yn ogystal â'r fraint yma, dw i wedi derbyn yr her yn yr un flwyddyn â'm mlwyddyn gyntaf yn y brifysgol. A hynny'n mynd â fi dros Glawdd Offa! Ond rhwng coginio fy 'mhot-noodles' a phoeni os yw'r cyw iâr yn binc neu beidio dw i wedi joio mas draw ac yn teimlo'n freintiedig iawn i allu parhau am flwyddyn ychwanegol yn y rôl.**

Wrth ddod yn Llywydd, daeth yn amlwg i fi mae fy 'catchphrase' i oedd "adeiladu pontydd." Wrth drio gwneud ffrindiau newydd fy hun, ro'n i'n awyddus ein bod ni fel Bwrdd Syr IfanC, ac fel mudiad yn fwy agored a chynhwysol o bobl tu allan i'n cylch bach ni yng Nghymru, a dyna sydd wedi digwydd! Bwrdd Syr IfanC sy'n gyfrifol am greu Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2019 ac mae cynlluniau ar y gweill i lansio'r Neges ar y cyd gydag Eastside Young Leaders Academy yn Llundain – dyma fydd y tro cyntaf i'r Neges gael ei lansio tu allan i Gymru.

Wrth ddod at ddiwedd y flwyddyn, mae 'na lwyth o bobl hoffwn i ddiolch iddyn nhw. I ddechrau, diolch anferthol i Mared Edwards, is-gadeirydd y Bwrdd, ac i bob un aelod o Fwrdd Syr IfanC, am roi ffydd ynof yn y lle cyntaf ond hefyd am eich gwaith caled yn ystod y flwyddyn, er gwaethaf straen arholiadau a bywyd yn gyffredinol! Mae lot mwy o sbort i ddod! Eleri Mai Thomas oedd yr aelod cyntaf o staff yr Urdd i fi ddod ar ei thraws, a hynny yn fachgen bach 11 oed yn Ysgol Gyfun Garth Olwg. Diolch iddi am fod mor gefnogol a doeth ym mhob agwedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i Freddie, Josh, Luke a Kayleigh em eu cefnogaeth ddi-baid yn fy ngwaith ac am brofi bod lle i'r Urdd a'i haelodau tu allan i Gymru. Mae'r diolch mwyaf i'r teulu cyfan, am agor eu bywydau i'r Urdd er nad ydynt yn siarad Cymraeg. Diolch hefyd i bob un sydd wedi cefnogi'r Urdd, Bwrdd Syr IfanC a finnau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Pwy â ŵyr beth ddaw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, ond fy neges syml i yw... Ewch ati i ddechrau sgwrs gyda rhywun newydd, rhywun bydde chi ddim fel arfer yn siarad â nhw. Dw i ddim yn ddyn gamblo, ond betia i bydd gyda chi fwy yn gyffredin na fyddech chi'n disgwyl!

Ewch i wneud ffrindiau!



# Astudiaeth Achos 1
# **Herbert Thompson**

Ysgol yng nghanol Treláí, Caerdydd, yw Ysgol Herbert Thompson a bob blwyddyn mae'n mynd â thua 35 i 45 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog.

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2018), mae 95% o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn 20% o'r ardaloedd mwyaf di-freintiedig yng Nghymru, ac mae 56% yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae mwy o deuluoedd o lawer yn byw dan effaith tlodi, gan gynnwys y rheini o gartrefi sy'n gweithio.

Esboniodd Anna Whitehead, athrawes yn Ysgol Herbert Thompson, sut mae'r disgyblion yn elwa o ymweliadau blynyddol yr ysgol i Wersyll yr Urdd, a sut mae eu profiadau'n eu helpu i ddatblygu a thyfu.

*"Gweledigaeth yr ysgol yw 'Dewch o hyd i'ch talentau a gadael iddynt dyfu, a byddwch y math o berson hoffech ei adnabod'. Rydym ni'n dewis mynd â'r plant i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog er mwyn iddynt gael profiad o'r byd y tu hwnt i Drelái. Mae llawer ohonynt heb deithio'n bellach nag Ynys y Barri, a rhai heb aros i ffwrdd o gartref erioed.*

*"Rydym ni'n credu mewn byd lle gall holl aelodau o gymuned Herbert Thompson fyw â gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol, a chael uchelgeisiau a sgiliau ar gyfer dyfodol hapus a llwyddiannus. Ein nod yw meithrin aelodau da o gymdeithas sy'n barchus, yn gydnerth ac yn gallu wynebu heriau bywyd, gan roi amrywiaeth eang o brofiadau iddyn nhw er mwyn eu galluogi i ddod o hyd i'w talentau a'u diddordebau brwd, a fydd yn eu helpu i fagu hunanwerth a datblygu sgiliau o'r radd flaenaf. Mae Gwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn rhoi'r holl gyfleoedd hyn i'r plant.*

*"Maen nhw wrth eu bodd yn treulio'u hamser sbâr yn yr amgylchedd naturiol, yn edrych am ddolffiniaid neu'n rhyfeddu at wir faint dafad. Mae'r daith i'r traeth yn uchafbwynt bob amser. Mae'r plant yn cael modd i fyw yn padlo yn y môr, yn neidio dros y tonnau ac yn palu yn y tywod. Mae'r rhain yn bethau dylai pob plentyn gael cyfle i'w gwneud, ond nid yw llawer o'n plant yn ddigon ffodus yn hynny o beth."*



Pan fyddan nhw yn y ganolfan mae diwylliant Cymru ym mhob man o'u cwmpas. Maen nhw'n canu caneuon Cymraeg neu'n dysgu am chwedlau Cymru. Nid yw llawer ohonyn nhw'n clywed y Gymraeg yn cael ei siarad y tu allan i'r ysgol ac mae eu cyfnod yn Llangrannog yn rhoi cyfle iddyn nhw glywed pobl yn siarad Cymraeg â'i gilydd, sy'n dod â'r iaith yn fyw.

Hefyd, mae'r gweithgareddau amrywiol yn Llangrannog yn cynnig cyfuniad o heriau, cyfleoedd newydd a digonedd o hwyl.

*"Mae angen y cyfle i herio eu hunain ar ein plant, er mwyn iddyn nhw allu dangos gwerthoedd yr ysgol – penderfyniad a llwyddiant. Mae llawer yn wynebu eu hofnau ac yn rhoi cynnig arni, gan sylweddoli eu bod yn hoff iawn o ddatrys problemau a goresgyn gweithgareddau na fydden nhw wedi dychmygu y gallen nhw. Gan fwynhau cefnogaeth eu cyfoedion, mae'r teimlad o gyflawni'n rhoi hwb i'w hyder ac yn cael effaith barhaol wrth iddyn nhw bontio i'r ysgol uwchradd.*

*"Mae atgofion ardderchog yn cael eu creu. Mae llawer o'r plant sy'n dychwelyd i'r ysgol yn cofio am eu trip i Langrannog fel un o'u profiadau gorau yn yr ysgol gynradd, ac mae rhieni'n nodi'n aml pa mor aeddfed mae'r plant yn ymddangos ar ôl dod yn ôl. Mae'n drobwynt."*




# Astudiaeth Achos 2
# **Martha Davies**

Fel un sydd wrth ei bodd ar lwyfan, doedd Martha Davies o Langwm, Sir Conwy, erioed wedi ystyried gyrfa tu ôl i'r llen. Yn ei thrydedd flwyddyn yn astudio Theatr a Drama ym Mhrifysgol De Cymru daeth y cyfle i geisio am le i weithio ar Aberhenfelen, cynhyrchiad ar y cyd rhwng Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd a Chwmni Theatr Bara Caws.

Bwriad y cynllun yw cynnig profiadau celfyddydol gwerthfawr i'r rheiny sy'n cymryd rhan, gan gynnwys cast i fod ar y llwyfan ond hefyd meithrin darpar dechnegwyr, offerynwyr, cynllunwyr, cyfarwyddwyr, cerddorion ac awduron – a hynny i gyd dan arweiniad tîm cynhyrchu profiadol.

Mae Martha yn un sydd yn mwynhau perfformio erioed a'i bwriad yn y lle cyntaf oedd ymgeisio i fod yn rhan o'r cast pan welodd hefyd bod cyfleoedd i weithio gefn llwyfan.

*"Cyn i'r cyfle hwn godi, doeddwn i ddim wir wedi ystyried gyrfa tu ôl i'r llen ond ro'n i'n gweld hwn fel cyfle i drio rhywbeth newydd felly dyma fi'n penderfynu mynd amdani a gwneud cais i fod yn rheolwr llwyfan."*

Ers ei geni, mae Martha yn byw gyda chyflwr nychdod cyhyrol sy'n effeithio ar ei thraed yn enwedig. Mae'n anabledd cudd sydd yn aml yn anodd ei egluro wrth eraill ac roedd hi'n poeni y gallai hynny effeithio ar ei chyfle i gael lle ar y cynhyrchiad.

*"Efallai mai dyna pam dw i'n hoff o berfformio – pan dw i ar y llwyfan, does neb yn gwybod am fy nghyflwr ac rwy'n cael bod yn rhywun arall am gyfnod. Roedd ceisio am le fel rhan o'r criw yn gam mawr i fi a rhaid i fi gyfaddef roeddwn ychydig yn nerfus wrth feddwl beth fyddai ymateb pobl eraill i fy nghyflwr. Ond doedd dim angen i fi boeni, roedd holl gast a chriw Aberhenfelen mor gefnogol ac roedd hi mor braf gallu bod yn agored gyda phawb. Rhaid i fi ddiolch yn arbennig i'r cyfarwyddwr Meilyr Rhys Williams am fod mor gefnogol a rhoi pob cyfle i fi yn fy rôl fel rheolwr llwyfan.*

*"Dw i'n eithaf swil ar y cyfan ond dw i wir yn teimlo bod y profiadau gyda'r theatr ieuenctid wedi bod yn help mawr wrth fagu hyder. Mae cael gweithio dan arweiniad pobl fel Caryl McQuilling a Theatr Bara Caws wedi bod yn wych a dw i'n bendant wedi elwa.*

*"Os daw cyfle eto yn y dyfodol i weithio ar gynhyrchiad tebyg byddwn yn annog unrhyw un i fynd amdani. Beth bynnag eich diddordeb – celf, cerddoriaeth, sgriptio, cefn llwyfan – mae cyfle i bawb, does dim rhaid bod yn actor!*

*"Rydw i wir wedi gwneud ffrindiau am oes ac wedi'r holl ymarfer, dw i'n methu aros i gael mynd â'r sioe ar daith ym mis Gorffennaf i Galeri Caernarfon ac i'r Atrium yn y brifysgol lle dw i wedi bod yn astudio ers tair blynedd. Bydd hynny'n dipyn o brofiad."*




**Dai Bryer** / daibryer@urdd.org / 01267 676 642
**Sian Rogers** / sianrogers@urdd.org / 01745 818 600

# Cyfathrebu


- 56,792 o blant a phobl ifanc yn ymaelodi â'r Urdd.
- Ehangwyd ein harlwy ar y cyfryngau cymdeithasol gan fuddsoddi mewn swydd benodol a chynnwys digidol apelgar drwy gydol y flwyddyn. Gwelwyd cynnydd yn ein dilynwyr gyda chyfri Instagram yn cynyddu 200%.
- Lansiwyd cynllun o gynigion arbennig i aelodau drwy god ar gerdyn aelodaeth. Erbyn Ionawr 2019 roedd dros 2000 wedi sganio'r cod QR gydag ymateb positif iawn i gynnig o fynediad am ddim i aelodau'r Urdd i atyniad Folly Farm gyda'r neges wedi cyrraedd dros 58,000 o bobl drwy ein cyfrifon cymdeithasol.
- Adnewyddwyd cytundeb grant Cyngor Llyfrau Cymru dros y pedair blynedd nesaf i gynhyrchu cylchgrawn Cip. Mae'n gyfnod heriol ym maes cyhoeddi ac mae cynlluniau ar y gweill i gyfuno rhifynnau print a chynnwys digidol o fis Medi 2019 ymlaen.
- Cefnogwyd holl waith adrannau'r Urdd gyda chynlluniau marchnata penodol i gefnogi Gwersylloedd Haf yr Urdd, Eisteddfod yr Urdd a chynyddu ymwybyddiaeth o waith yr Urdd yn ein cymunedau.

# Ieuenctid a Chymuned

- Roedd mwy na 150 o bobl ifanc yn rhan o Fforymau Ieuenctid yr Urdd ar draws Cymru a Chynhadledd Bwrdd Syr IfanC eleni yn cynnwys pobl ifanc oedd yn dysgu Cymraeg am y tro cyntaf.
- Dros 56,000 o aelodau i'r Urdd, gyda nifer o ranbarthau gyda'r aelodaeth uchaf erioed.
- Person ifanc o'r Wladfa yn gwirfoddoli yng Nghymru trwy brosiect gwirfoddoli Patagonia, gyda'r cynllun yn ennill Gwobr Gwaith Ieuenctid Cymru am y Prosiect Rhyngwladol Gorau.
- Yr Urdd oedd y corff gwirfoddol cenedlaethol cyntaf i dderbyn Marc Ansawdd Arian ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.
- 21,498 o aelodau'r Urdd yn ddysgwyr ac 8,000 o gysylltiadau gyda phobl ifanc fel rhan o gynllun Cymraeg Bob Dydd, sef cynllun yr Urdd a Llywodraeth Cymru i bobl ifanc sy'n dysgu'r iaith.



**Mali Thomas**
mali@urdd.org / 02920 635 695






**Aled Siôn**
eisteddfod@urdd.org
01678 541 014

# Eisteddfod

- Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd ym Mrycheiniog a Maesyfed ar safle'r sioe yn Llanelwedd ym Mai 2018, gan gydweithio'n hwylus gyda'r Gymdeithas Amaethyddol ac ymgorffori amryw o adnoddau a chyfleusterau'r safle i'n cynlluniau Maes.
- Trefnwyd nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau llwyddiannus gan Bwyllgorau Apêl a Phwyllgorau Testun Brycheiniog a Maesyfed fel rhan o'r ymdrechion i godi arian, i godi ymwybyddiaeth ac i gryfhau sefyllfa'r iaith mewn cymunedau ar draws dalgylch Eisteddfod 2018.
- Cychwynnodd yr ymarferion ar gyfer sioe Aberhenfelen, cynhyrchiad Theatr Ieuenctid Genedlaethol yr Urdd ar y cyd â Theatr Bara Caws.
- Cynhaliwyd noson wefreiddiol o gystadlu yn y Pafiliwn, Llandrindod ym mis Hydref, wrth i chwech o dalentau mwyaf disglair Eisteddfod yr Urdd ymrafael am Ysgoloriaeth yr Urdd Bryn Terfel, gydag Epsie Thompson yn fuddugol.
- Cytunodd cyfarfod cyhoeddus ym mis Mehefin i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ôl i Sir Gaerfyrddin yn 2021, a pharhaodd y trefniadau ar gyfer Caerdydd a'r Fro 2019 a Sir Ddinbych 2020.

# Chwaraeon

- Cyhoeddwyd ein nod o greu 100 o brentisiaethau erbyn dathlu canmlwyddiant yr Urdd yn 2022.
- Dros 48,000 wedi mynychu cystadlaethau chwaraeon yr Urdd.
- Gweithgareddau teulu: Yn dilyn llwyddiant sesiynau Plantos Heini mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru, fe'i cyflwynwyd i ardal Sir Gaerfyrddin, gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd i deuluoedd ymgysylltu â gweithgarwch corfforol a datblygu'r sgiliau symud sylfaenol drwy annog gweithgaredd hwyliog, creadigol a dychmygus.
- Dros 4000 wedi mynychu cynlluniau gwyliau yr adran chwaraeon sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar chwaraeon newydd a gwella eu sgiliau Cymraeg.
- Mewn lansiad yn Stadiwm Principality ym mis Mawrth, cyhoeddwyd y bydd gŵyl rygbi i gyfranogwyr sydd ag anableddau yn cael ei chynnwys yn rhan o gystadleuaeth Rygbi 7 bob ochr Cenedlaethol yr Urdd ac Undeb Rygbi Cymru 2019.



**Gary Lewis**
gary@urdd.org
029 22405335





# Astudiaeth Achos 3
# **Greta Evans**

Cynrychiolwr yr Urdd yn Senedd Ieuenctid Cymru

Yn ddisgybl 15 oed yn Ysgol Plasmawr, Caerdydd roedd Greta Evans yn awyddus i annog y defnydd o Gymraeg yn yr ysgol.

*"Mae'r ffaith bod mwy o deuluoedd di-Gymraeg yn dewis anfon eu plant i gael addysg mewn ysgolion Cymraeg yn wych ac yn bendant yn rhywbeth i'w ddathlu, ond yn naturiol mae hyn yn golygu bod rhai yn teimlo'n fwy cyfforddus yn cymdeithasu gyda'u ffrindiau yn Saesneg. Mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i fi ac ro'n i'n awyddus i wneud rhywbeth i helpu i annog y defnydd o'r iaith."*

Ymunodd Greta â chlwb 'Tafod' yr ysgol sy'n gweithio i gadw'r Gymraeg yn ddeniadol ac yn fywiog o fewn yr ysgol. Drwy hynny cafodd y criw ifanc eu cyflwyno i Fforwm Ieuenctid yr Urdd a gwaith Bwrdd Syr IfanC. Ymunodd Greta â'r Fforwm Ieuenctid ac mae'n mwynhau'r ochr gymdeithasol.

*"Dw i wedi cwrdd â lot o bobl newydd fydden i ddim o reidrwydd wedi dod ar eu traws fel arall. Dw i wir yn mwynhau medru trefnu digwyddiadau sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc joio a chymdeithasu yn y Gymraeg. Mae nifer o gynlluniau ar y gweill hefyd i drefnu gweithgareddau elusennol ac mae hynny'n bwysig i fi."*

Pan ddaeth y cyfle i ymgeisio i gynrychioli'r Urdd yn Senedd Ieuenctid Cymru, aeth Greta ati i greu fideo yn amlinellu pam ddylai Bwrdd Syr IfanC ei dewis fel cynrychiolydd.

*"Roeddwn i wrth fy modd pan ges i'r neges yn fy llongyfarch ar gael fy ethol yn gynrychiolydd yr Urdd yn y Senedd. Dw i wedi cael cyfle i gwrdd â phobl ifanc o bob math o gefndiroedd cymdeithasol a gwleidyddol ac roedd camu i'r siambr a gweld fy enw yno yn brofiad arbennig iawn.*

*"Rydym wedi cyfarfod unwaith yn barod ac wedi cytuno ar dri prif ffocws er mwyn cael nod clir i'n gwaith – sef iechyd meddwl, yr amgylchedd a sgiliau bywyd yn y cwricwlwm. Rydw i'n aelod o bwyllgor yr amgylchedd."*

Rhan sylfaenol o fod yn aelod o'r Senedd Ieuenctid yw trafod materion sy'n bwysig i bobl ifanc Cymru ac mae cynnal cyfarfodydd rhanbarthol yn rhan o hynny.

*"Mae pobl ifanc yn cysylltu â ni i ofyn i ni godi a thrafod materion sy'n bwysig iddyn nhw. Dw i'n teimlo'n gryf ei bod yn bwysig rhoi llais i bobl ifanc ar faterion gwleidyddol a dw i wir yn teimlo fy mod yn cael cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl ifanc Cymru gan ein bod yn cydweithio â'r rhai sydd mewn grym sydd â'r gallu i newid pethau. Enghraifft o hyn yw'r cwricwlwm newydd ble cawsom ddiwrnod o baratoi adborth a chynnig argymhellion i'r Senedd cyn iddo gael ei gyflwyno yn ein hysgolion."*

Mae Greta'n edrych ymlaen yn eiddgar at yr hyn gall Senedd Ieuenctid Cymru ei gyflawni dros y ddwy flynedd nesaf ac mae'n falch iawn o gael cynrychioli'r Urdd a bod yn llais i'w haelodau yn y Senedd.

# Astudiaeth Achos 4
# **Chwaraeon - Cynyddu cyfranogiad merched**

Mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru mae'r Urdd wedi datblygu nifer o gyfleoedd ledled Cymru i ferched gymryd rhan mewn sesiynau pêl-droed rheolaidd i ferched yn unig. Y nod yw sicrhau mwy o gyfleoedd i ferched gymryd rhan ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i chwarae a hyfforddi pêl-droed.

Yn Ynys Môn trefnwyd sesiynau blasu i ferched ysgolion cynradd dalgylch Llangefni ac yna clwb wythnosol i ferched yn unig yn defnyddio'r cyfleuster 3G newydd. Rhoddwyd y cyfle hefyd i wirfoddolwyr dderbyn cymhwyster hyfforddi pêl-droed a'i gyflwyno o fewn y strwythur cymunedol.

Mae Rhodd-Alaw, Swyddog Gweithgareddau Chwaraeon yr Urdd yn Ynys Môn wedi gweld datblygiad pendant yn dilyn cyflwyno'r sesiynau yn ei hardal hi.

*"Mae'r clybiau yma wedi cael effaith sylweddol ar hyder a gallu'r merched sy'n chwarae. Rwyf wedi gweld sut mae'r clwb yn medru annog unigolion i fod yn fwy hyderus nid yn unig wrth chwarae pêl-droed ond wrth gymdeithasu â phlant eraill o wahanol ysgolion. Mae'n gyfle hefyd i ddysgu sgiliau bywyd. Drwy chwarae pêl-droed mae'r merched yn dysgu sgiliau gweithio mewn tîm, cyfathrebu, sut i golli, sut i ennill, a phwysigrwydd yw ymroddiad.*

*"Mae llawer o ferched sy'n dod i'r clwb yn cytuno ei bod yn anodd ymuno â'r hogiau yn ystod amser egwyl gan eu bod nhw'n dueddol o fod yn fwy cystadleuol wrth chwarae. Teimlaf hefyd ei bod yn bwysig cynnig cyfleoedd iddynt fwynhau chwaraeon yn y Gymraeg, sef iaith gyntaf nifer ohonynt. Yn yr un modd mae rhoi cyfle i ferched wneud rhywbeth maent yn ei fwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu eu bod yn fwy tebygol o siarad Cymraeg tu allan i'r clwb."*

Yn Sir Gaerfyrddin datblygwyd darpariaeth ar ôl ysgol i ferched gyda'r nod o gynyddu cyfleoedd iddynt chwarae pêl-droed yn rheolaidd yn y gobaith o gynyddu nifer y chwaraewyr cofrestredig mewn clybiau cynghrair cysylltiedig.


Meddai Emyr Davies, Swyddog Prosiect Chwaraeon Sir Gâr:

*"Mae gweithio ar y prosiect dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn fuddiol iawn i fi fel swyddog ac i'r merched sy'n mynychu'r sesiynau wythnosol. Mae'n wych gweld cynifer o ferched sydd erioed wedi chwarae pêl-droed yn datblygu sgiliau sylfaenol, yn tyfu fel chwaraewyr ac yn bennaf, yn mwynhau a pharhau i chwarae gyda chlybiau lleol."*

Ychwanegodd Gemma Lewis, Prentis Chwaraeon yr Urdd sydd wedi gweithio ar y cynllun:

*"Un tîm pêl-droed i ferched oedd ar gael pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd felly doedd dim cyfleoedd i chwarae yn erbyn pobl eraill i ddatblygu fy hun a fy sgiliau. Mae cael y cyfle i gwrdd ag un o chwaraewyr Cymru yn y sesiynau wedi bod yn hwb i hyder sawl un ac rwy'n gobeithio bydd yn ysbrydoli rhai o'r merched i geisio dilyn ei hesiampl a chwarae i dîm pêl-droed menywod Cymru rhyw ddydd!"*





**Huw Antur Edwards**
huwantur@urdd.org
01678 541 000

# Glan-llyn

- Cafodd Glan-llyn y flwyddyn brysuraf erioed yn 2018/2019, gyda chynnydd yn niferoedd pob sector – ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid a chyrsiau'r Urdd.
- Ehangu gwaith y Gwasanaeth Awyr Agored yn y de ddwyrain, gyda hyfforddwr o Lan-llyn wedi cael secondiad blwyddyn i ymestyn gwaith y gwasanaeth.
- Cwblhau gwaith adnewyddu ac uwchraddio sylweddol ar y neuadd chwaraeon, a'r neuadd o ganlyniad yn adnodd gwych ar gyfer digwyddiadau o bob math.
- Gwaith datblygu prosiect Glan-llyn Isa', wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda'r bwriad o ddechrau'r gwaith adnewyddu yn ystod 2019/2020, a Glan-llyn Isa', i agor fel canolfan newydd yn ystod 2020/2021.



**Ceren Roberts**
cerenroberts@urdd.org
029 2063 5672



# Caerdydd

- Mae'r Gwersyll wedi croesawu dros 11,000 o blant a phobl ifanc eleni ac wedi cynnal dros 170 o gyrsiau yn ystod y flwyddyn.
- Ionawr 2019 oedd y mis Ionawr prysuraf erioed i'r Gwersyll gyda dros 1,500 o blant yn mwynhau gweithgareddau amrywiol. O ymweliad â Stadiwm Principality, i nofio yn y Pwll Nofio Rhyngwladol i gael taith tu-ôl-i'r-llen yng Nghanolfan y Mileniwm.
- Dechreuwyd ar y cynllunio ar gyfer adnewyddu llawr gwaelod y Gwersyll. Bydd y gwaith yn cynnwys gwedd newydd i'r lolfa a'r neuadd fwyta, yn ogystal ag ychwanegu ystafell newydd at ddefnydd athrawon ac arweinwyr grŵp.
- Gadawodd Timothy Edwards fel Cyfarwyddwr y Gwersyll a dechreuodd Ceren Roberts yn ei rôl fel Pennaeth y Gwersyll ar ddiwedd Rhagfyr 2018.



# Llangrannog

- Blwyddyn lwyddiannus tu hwnt ym mhob agwedd ar waith y Gwersyll gyda dros 24,000 wedi aros, 52,500 gwersyllwyr/noson, a chyrraedd tu hwnt i'r targed ariannol.
- Arian Datblygu Calon y Gwersyll: Rydym wedi sicrhau grant o £300,000 gan Pawb a'i Le ynghyd â £300,000 gan Gronfa Cymunedau Arfordirol tuag at Brosiect Calon y Gwersyll. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddwy gronfa am eu cefnogaeth.
- Prentisiaid: Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael 5 prentis gwych yn ystod y flwyddyn gyda nifer o athrawon a disgyblion yn canmol gwaith a brwdfrydedd Eilyr, Dafydd, Ianto, Jac a Gethin.



**Lowri Jones**
lowri@urdd.org
01239 652 140

# Astudiaeth Achos 5
# **Jac Jenkins**

Yn wreiddiol o Ynys-y-bŵl, ger Pontypridd, mae Jac Jenkins bellach yn gweithio fel rhan o dîm chwaraeon yr Urdd yn ardal Caerdydd a'r Fro. Yn ei ail flwyddyn fel prentis, mae'n gweithio tuag at NVQ Lefel 3 Datblygu Chwaraeon.

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Evan James ac Ysgol Uwchradd Gartholwg, mae Jac wedi ymwneud â chwaraeon erioed ac yn chwaraewr tenis bwrdd talentog.

*"Un o uchafbwyntiau fy ngyrfa oedd ennill y fedal arian yng nghystadleuaeth Taith Ewrop y Malta Open yn 2014. Dw i hefyd yn mwynhau chwarae rygbi ac wrth fy modd yn trio chwaraeon newydd. Dyna pam wnes i benderfynu gwneud cais am brentisiaeth gydag Adran Chwaraeon yr Urdd – ro'n i eisiau gweithio gyda phlant ym myd chwaraeon a'u hannog i drio campau newydd."*

Arwain sesiynau chwaraeon mewn ysgolion neu glybiau cymunedol y mae Jac yn bennaf a dyma ei hoff agwedd o'r swydd.

*"Dw i wrth fy modd yn cael hyfforddi plant bob dydd ac mae eu gweld yn mwynhau fy sesiynau yn deimlad gwych. Mae datblygu clybiau hefyd yn rhywbeth dw i'n ei fwynhau gan ein bod yn rhoi cyfle i blant drio pethau newydd."*

Mae wedi ymgartrefu'n dda yng Nghaerdydd, yn aelod hanfodol o'r tîm sydd wastad yn barod i weithio gyda gwên! Yn ogystal â'i waith mewn ysgolion ac yn y gymuned, mae wedi cael cyfle hefyd i weithio ar nifer o gystadlaethau cenedlaethol yr Urdd.

Un o'r profiadau sy'n aros yn y cof i Jac yw ei brofiad wrth fynychu cwrs nofio Lefel 2 lle'r oedd yn dysgu plant bach i nofio.

*"Ar ddechrau'r wythnos roedd un o'r plant bach yn ofnus iawn o'r dŵr ac yn crio a sgrechian wrth fynd mewn i'r pwll. Ar ôl gweithio'n galed gyda'r plentyn, erbyn diwedd yr wythnos roedd yn nofio heb grio ac yn gwenu drwy gydol y sesiwn. Ges i gerdyn wrth ei fam yn diolch i fi a phawen lawen wrth y plentyn. Wna i fyth anghofio ei wên ar ddiwedd yr wythnos."*

Ar ôl cwblhau ei brentisiaeth, mae Jac yn awyddus i barhau i weithio yn y byd chwaraeon ac yn ystyried mynd ymlaen i'r brifysgol i astudio am radd mewn Datblygu Chwaraeon.





# Astudiaeth Achos 6
# **Ysgol Bro Morgannwg**

'Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd'. Dyna yw arwyddair Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a phedair blynedd yn ôl dechreuwyd perthynas arbennig iawn rhwng adran Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd a'r ysgol wrth i'r GAA drefnu alldaith i 30 person ifanc dros 14 oed fel rhan o'u gweithgareddau i gyrraedd Lefel Efydd Gwobr Dug Caeredin.

Mae cwblhau alldaith o'r fath yn sialens bersonol eithriadol sy'n cyfrannu tuag at ddatblygiad personol, sgiliau bywyd a sgiliau meddwl pobl ifanc. Mae gofyn iddynt gerdded a gwersylla dros nos, gan ddilyn llwybrau ar fap a chario'r holl offer eu hunain tra bod yn gwbl hunangynhaliol.

Ers y daith gyntaf honno yn 2015, mae'r bartneriaeth wedi mynd o nerth i nerth ac eleni, ymunodd 90 o bobl ifanc â'r GAA ar yr alldaith Lefel Efydd, llwyddodd 43 arall i gyrraedd y Lefel Arian a 14 wedi cwblhau'r Lefel Aur.

Meddai Mr Huw Williams, Pennaeth Blwyddyn 9 a chydlynydd Gwobr Dug Caeredin yn Ysgol Bro Morgannwg,

"Wrth i'r berthynas rhwng yr ysgol â GAA ddatblygu dros y blynyddoedd, rwyf wedi gallu cynnig syniadau newydd er mwyn cynnig amrywiaeth o brofiadau i'n disgyblion gan gynnwys dringo Pen y fan yng ngolau'r lloer a phadl fyrddio ar hyd Afon Taf. Mae parodrwydd staff y GAA i ddatblygu, ehangu ac arbrofi wedi ein galluogi i gynnig profiadau arloesol i'n disgyblion. Hyd yn oed wrth dreialu syniadau newydd, cynigir yr un lefel o broffesiynoldeb a thrylwyredd gyda phob agwedd wedi'i asesu'n llawn."

*"Ceir cyswllt agos rhyngof i fel cydlynydd Gwobr Dug Caeredin â'r GAA ac mae'r berthynas bob amser yn un cadarnhaol a phersonol, wedi'i theilwra i'n hanghenion. Mae ethos a phroffesiynoldeb y staff sy'n cynnal gweithgareddau gyda disgyblion yr ysgol yn ennyn ymddiriedaeth yr athrawon a'r plant. Yn ystod yr alldeithiau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd, darperir staff profiadol gyda chymwysterau amrywiol a phwrpasol. Hyfryd hefyd yw clywed am brofiadau gwahanol y staff; a hynny o ddiddordeb i'r disgyblion.*

*"Gan fod diogelwch y disgyblion yn allweddol, gellir bod yn hyderus fod staff GAA wedi gofalu am bob sefyllfa, gan baratoi a chynnig yr offer priodol.*

*"Mewn ardal ddifreintiedig, mae gwasanaeth fforddiadwy'r GAA wedi bod yn greiddiol i lwyddiant y bartneriaeth. Cynigir cyfleoedd newydd a chyffrous i'n disgyblion; cyfleoedd na all cwmnïau eraill yn yr ardal eu cynnig. Wrth gwrs, prif gryfder y gwasanaeth yw eu gallu i gynnig yr holl gyfleoedd anhygoel hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy hynny, rhoddir cyfle i ddisgyblion werthfawrogi'r iaith y tu hwnt i furiau'r ysgol, ac mae cyfleoedd fel hynny'n gallu bod yn brin y dyddiau hyn."*

Mae'r bartneriaeth gydag Ysgol Bro Morgannwg wedi chwarae rhan annatod yn natblygiad y GAA yn ne Cymru ac mae'r berthynas am barhau i'r dyfodol gyda hyd yn oed mwy o bobl ifanc yn cael profiadau awyr agored o bob math yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Y bwriad yw sefydlu Clwb Awyr Agored yn yr ysgol, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddechrau gweithio gyda'r ysgol gynradd leol, sydd eisoes wedi bod ar eu taith gyntaf i Lan-llyn eleni.

# Adroddiad y Trysorydd
# Abigail Williams

**Wrth gyflwyno fy adroddiad cyntaf fel Trysorydd, rwy'n hynod o falch o allu adrodd fod canlyniad 2018/19 yn bositif dros ben ac yn dangos gweddill iach iawn am y cyfnod. Mae'r Urdd wedi elwa o haelioni arbennig eleni drwy gyfraniadau, cymynroddion a rhoddion ac mae ein diolch yn fawr i garedigion y Mudiad unwaith eto. Mae'r caredigrwydd yma yn ein galluogi i gynllunio tua'r dyfodol, gan gynnwys yn benodol clustnodi £6.5m o fuddsoddiad er mwyn datblygu gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glan-llyn yn ystod y flwyddyn a hanner nesaf.**

Mae incwm y Mudiad wedi codi i £12.9m (£10.2m yn 2017/18), ac yn ogystal â chynnydd mewn cyfraniadau, cymynroddion a rhoddion, mae'r cynnydd hefyd yn adlewyrchu llwyddiant ein swyddogion yn denu grantiau ac incwm ychwanegol. Gwelwyd hefyd gynnydd yng ngwariant yr Urdd ar weithgareddau eleni i £10.9m (£10.0m yn 2017/18), sy'n dyst o'r twf mewn gweithgaredd ar draws ystod eang o adrannau'r Mudiad. Er hynny, gwelwyd gostyngiad yn lefel incwm Eisteddfod yr Urdd, ac ni lwyddodd Eisteddfod Brycheiniog a Maesyfed i gyfrannu tuag at gostau canolog yr Urdd.

Mae'r safon o ddarpariaeth yn y gwersylloedd, gwaith maes, chwaraeon a'r Eisteddfod yn mynd o nerth i nerth, ac mae'r flwyddyn wedi bod yn fwrlwm o weithgaredd. Diolch yn fawr i staff yr Urdd am eu hymroddiad ac am weithio mor ddiwyd i sicrhau'r canlyniadau yma. Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cefnogi gwaith y Mudiad.

O ran gwariant cyfalafol eleni, o'r £0.8m a fuddsoddwyd, y prosiectau mwyaf oedd buddsoddi £0.23m yn ymestyn a datblygu'r llethr sgïo yn Llangrannog, £0.25m yn datblygu adeiladau ac adnoddau yn Llangrannog a buddsoddi £0.17m yn datblygu'r neuadd chwaraeon yng Nglan-Llyn. Bydd y prosiectau yma, yn ogystal a chynlluniau cyfalafol y Mudiad ar gyfer y flwyddyn a hanner nesaf yn hollbwysig wrth foderneiddio, datblygu a gwella cyfleusterau ein gwersylloedd.

Mae'n hynod bwysig i'r Urdd gadw arian wrth gefn er mwyn cefnogi gweithgareddau pe byddai amgylchiadau yn achosi gostyngiad sylweddol mewn incwm, neu gynnydd mewn costau. Mae'r arian wrth gefn yn cael ei fuddsoddi, a da yw gallu adrodd fod gwerth ein buddsoddiadau wedi cynyddu tua £167k yn ystod y flwyddyn, a bod tua £69k wedi ei dderbyn fel incwm o'r buddsoddiadau yma.

Hoffwn ddiolch o galon am gefnogaeth aelodau'r Bwrdd Busnes ac am eu hymroddiad i waith yr Urdd. Diolch hefyd i'r holl gyrff cyhoeddus am eu cefnogaeth ariannol ac i holl noddwyr yr Urdd am eu haelioni. Mae hi'n gyfnod cyffrous dros ben i'r Mudiad, a bydd parhau i fonitro ein gwariant yn gyson yn rhoi sail cadarn i'n cynlluniau ac yn blatfform i fedru parhau â datblygu darpariaeth yr Urdd.



**Ac i gloi, mae'n rhaid i mi gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r Trysorydd blaenorol, Rheon Tomos, sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth di-flino i'r Mudiad yn ei rôl fel Trysorydd. Mae Rheon yn parhau fel Ymddiriedolwr, Is-Gadeirydd ac aelod o'r Bwrdd Busnes, ac rydw i a'r Mudiad yn hynod o falch ein bod yn gallu parhau i elwa o'i brofiad helaeth. Diolch yn fawr Rheon am yr holl waith ac ymroddiad fel Trysorydd dros y blynyddoedd.**

# Noddwyr a Phartneriaid 2018–2019

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall yr Urdd eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

Diolchwn i'r sefydliadau canlynol a gefnogodd waith yr Urdd yn ystod y flwyddyn:

**Aberystwyth University**
**BBC Radio Cymru**
**Brecon Town Council**
**BSW Timber Group**
**BT**
**Castell Howell**
**Darwin Gray**
**Discover Teaching**
**Effectus HR**
**Gravells**
**Gwendoline and Margaret Davies Trust**
**Gwobr Goffa Gari**
**Hodge Foundation**
**Ifor and Aeres Evans Trust**
**Integro**
**James Pantyfedwen Foundation**
**Jones & Whitehead**
**Lantra**
**Mid-Wales Housing Association Limited**
**National Centre for Learning Welsh**
**NPTC Group**
**Powys County Council**
**Quay Fresh & Frozen Foods Ltd**
**RAS 200**
**S4C**
**Sports Wales**
**Swansea University**
**Teifi gaardens and Landscaping**
**Telesgop**
**Tinopolis**
**Trinity College London**
**UCAC**
**UK Parliment Education and Outreach**
**University of Wales Trinity St David**
**Welsh Government**
**Western Power**
**Ymchwil OB3**
**Ystradgynlais Town Council**

# Cymynroddion Elizabeth ac Eleanor Davies, Aberaeron

**Eleni, derbyniodd Urdd Gobaith Cymru gymynrodd sylweddol yn ewyllys Elizabeth Davies o Aberaeron. Daw'r rhodd yma i'r Urdd yn dilyn derbyn rhodd yn ewyllys Eleanor, chwaer Elizabeth yn 2012. Yma, mae eu ffrind ac ysgutor yr ewyllys, Jennifer Lloyd Davies, yn esbonio'r rhesymau y tu ôl i'w rhodd hael.**

"Ganed Eleanor ac Elizabeth Davies, Aberaeron, yn nechrau'r tridegau i deulu a bywyd cyffredin cefn gwlad. Gyda'u rhieni yn gweithio oriau hir yn siop cigydd y teulu yn Bridge Street, Aberaeron, treuliodd y chwiorydd lawer o'u plentyndod gyda pherthnasau a'u nain a thaid ar fferm ger capel y teulu yn Neuaddlwyd ger Aberaeron.

Aeth y chwiorydd i'r ysgol yn Aberaeron cyn hyfforddi fel athrawon yn Abertawe. Gadawodd Eleanor Aberaeron i weithio gyntaf yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, cyn symud i Goleg Caerllion yn Sir Fynwy ym 1967 lle arhosodd fel Pennaeth Gwnio a Thiwtor i fyfyrwyr benywaidd nes iddi ymddeol ym 1987. Arhosodd ei chwaer iau, Bet, yng nghartref y teulu gan weithio gyntaf yn Llanybydder yna fel Prifathrawes yn Aberarth ac wedi cau honno, yn yr ysgol gynradd yng Nghiliau Aeron.

Roedd y chwiorydd yn byw yn syml ac yn cael pleser o'u teulu, eu ffrindiau, y capel a'r gymuned. Bob haf, roedden nhw wrth eu boddau'n dilyn darllediadau'r Eisteddfodau - yn gyntaf un yr Urdd, yna Llangollen ac yn olaf y Genedlaethol. Y darllediadau ar y radio oedd yn rhoi'r pleser mwyaf, gydag ymwelwyr yn cael eu hannog i drafod a beirniadu'r cystadlaethau a gwobrau amrywiol. Wedi hyn byddai'r beirniadaethau'n cael eu darllen a'u dadansoddi gyda chryn fwynhad.

Cyfarfum â'r chwiorydd gyntaf ym 1967 pan ddechreuais weithio yng Ngholeg Caerllion. Dyfnhaodd fy mherthynas â'r chwiorydd dros y blynyddoedd a buont yn egluro i mi eu pleser o wrando ar y cystadleuwyr iau yn Eisteddfod yr Urdd a'u gwerthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan athrawon a staff yr Urdd wrth hyfforddi, meithrin ac arwain y plant, ac yn bwysicaf oll - eu bod yn gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddent am warchod yr iaith ac yn teimlo'n daer mai gwneud unrhyw beth o gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg oedd y



ffordd naturiol i gadw'r iaith yn fyw a'r diwylliant yn rhan fywiog, angenrheidiol o fywydau pobl ifanc.

Roedd y rhan fwyaf o'u harian wedi'i arbed yn ofalus trwy eu bywydau ac unrhyw arian a adawyd iddyn nhw wedi ei fuddsoddi'n ofalus gan iddo ddod o waith caled a doethineb eraill o'u blaenau. Wrth i'w hewyllysiau esblygu felly daeth yn amlwg - cymynroddion i bob aelod o'r teulu ehangach, yr holl ffrindiau a oedd wedi bod yn dda wrthynt, elusennau lleol a chenedlaethol yr oeddent yn edmygu eu gwaith. Yna'r swmp i Urdd Gobaith Cymru yn Llangrannog er budd plant Ceredigion a phobl ifanc eraill hynny yng Nghymru i allu mwynhau'r gwersi gwerthfawr o fyw a pherfformio trwy gyfrwng y Gymraeg."

# Cyfarwyddwr Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth
## Hywel Williams



### FFYNONELLAU INCWM ALLANOL

Fel Mudiad 'rydym yn ymdrechu ac yn llwyddo i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd gan amrywiaeth eang o ffynonellau. 'Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'r ffrydiau ariannu hyn – boed yn lywodraeth a sefydliadau cenedlaethol, awdurdodau lleol neu'n unigolion hael. Heb eu cefnogaeth hwy, ni fyddai modd i'r Urdd gynnig yr ystod eang o weithgareddau a phrofiadau unigryw a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

| **Cynigwyd y prif grantiau canlynol** | **£** |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru - Hyrwyddo'r Gymraeg | 702,186 |
| Chwaraeon Cymru - Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol | 301,848 |
| Llywodraeth Cymru - Datblygiadau Cyfalafol | 175,082 |
| Llywodraeth Cymru - Prosiect Cymraeg Ail Iaith | 129,500 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | 124,856 |
| Llywodraeth Cymru - Cynllun Prentisiaethau | 97,250 |
| Chwaraeon Cymru - Gemau Cymru | 60,000 |
| Llywodraeth Cymru - Gemau Cymru | 55,000 |
| Llywodraeth Cymru - Hybu Defnydd y Gymraeg | 39,000 |
| Cyngor Llyfrau - Grant Cylchgronau | 30,950 |
| Undeb Rygbi Cymru | 30,000 |
| Cronfa Gymunedol Gwynt y Mor | 25,598 |

| **Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau** | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 150,000 |
| Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru | 135,680 |
| Cynghorau Lleol | 5,700 |

| Awdurdodau Lleol - gan gynnwys grantiau cefnogi swyddogion ieuenctid | £ |
|---|---|
| Môn (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn) | 49,215 |
| Caerdydd | 30,000 |
| Powys | 29,078 |
| Gwynedd | 27,240 |
| Y Fflint | 26,200 |
| Wrecsam | 26,000 |
| Merthyr | 23,000 |
| Dinbych | 20,000 |
| Bro Morgannwg | 20,000 |
| Pen-y-Bont | 17,000 |
| Caerffili | 15,000 |
| Casnewydd | 14,000 |
| Caerfyrddin | 13,500 |
| Mynwy | 8,667 |
| Ceredigion | 7,000 |
| Blaenau Gwent | 6,000 |
| Conwy | 5,000 |
| Penfro | 4,000 |

| Prif Gymynrhoddion | |
|---|---|
| Miss Elizabeth Marina Davies, Aberaeron | 2,130,000 |
| Mr Robert Brian Roberts, Betws Gwerfil Goch (balans y stâd) | 117,608 |
| Mr Thomas Robert Parry, Stourbridge | 56,908 |
| Mr Anthony W D Gorton, Casnewydd | 10,000 |




# Gwybodaeth Ariannol

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r cyfrifon yma yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni, ar 22ain o Dachwedd 2019 wedi'u hanfon i'r Tŷ'r Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon llawn gan Dunn & Ellis Cyf., Cyfrifwyr Siartredig a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn, Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.



.....................................................................................


Llofnodwyd ar ran Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Mantolen 31 March 2019

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| **Asedion Sefydlog** | | |
| Eiddo Sylweddol | 14,495,071 | 13,883,215 |
| Buddsoddion | 3,154,067 | 2,988,528 |
| | **17,649,138** | **16,871,743** |
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Stoc | 58,460 | 46,186 |
| Dyledwyr | 1,169,780 | 779,181 |
| Buddsoddion | 875,410 | 1,165,852 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 2,548,519 | 1,183,458 |
| | **4,652,169** | **3,174,677** |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,453,127) | (1,416,137) |
| **Asedion cyfredol net** | **3,199,042** | **1,758,540** |
| **Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol** | **20,848,180** | **18,630,283** |
| Credydwyr | | |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn** | **-** | **-** |
| | **20,848,180** | **18,630,283** |
| **Cronfeydd** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 1,944,434 | 2,215,463 |
| Cronfeydd Rhydd | 16,933,679 | 14,611,888 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 1,827,830 | 1,661,661 |
| Cronfa ail-brisio eiddo | (126,633) | (121,933) |
| Cronfeydd gwaddol | 268,870 | 263,204 |
| **Cronfeydd** | **20,848,180** | **18,630,283** |


# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Incwm 2018/2019

| **Incwm:** | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 3,042,726 | 2,985,026 |
| 2) Glan-llyn | 1,835,091 | 1,597,747 |
| 3) Caerdydd | 875,942 | 876,986 |
| 4) Incwm o fuddsoddion | 68,512 | 69,275 |
| 5) Eisteddfod 2018 (ddim yn cynnwys grantiau) | 1,133,223 | 1,322,092 |
| 6) Cylchgronau | 62,304 | 61,765 |
| 7) Aelodaeth | 434,646 | 403,218 |
| 8) Rhoddion a chymynroddion | 2,462,900 | 186,460 |
| 9) Amrywiol | 131,768 | 96,589 |
| 10) Grantiau (yn cynnwys chwaraeon ac eisteddfod) | 2,425,816 | 2,205,930 |
| 11) Chwaraeon | 441,517 | 353,928 |
| **Cyfanswm Incwm 2018/2019:** | **12,914,445** | **10,159,016** |



# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Gwariant 2018/2019

| **Gwariant:** | **2019** | **2018** |
|---|---|---|
| 1) Llangrannog a Phentre Ifan | 2,869,742 | 2,549,949 |
| 2) Glan-llyn | 1,924,179 | 1,688,523 |
| 3) Caerdydd | 777,364 | 657,434 |
| 4) Costau elusennol - Ieuenctid a Chymuned | 1,861,880 | 1,725,095 |
| 5) Eisteddfod | 1,769,094 | 1,985,447 |
| 6) Cylchgronau | 164,083 | 150,691 |
| 7) Costau trefn lywodraethol | 127,825 | 107,809 |
| 8) Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 71,461 | 52,499 |
| 9) Chwaraeon | 1,293,140 | 1,093,961 |
| 10) Ailbrisio adeiladau | 4,700 | - |
| **Cyfanswm Gwariant 2018/2019:** | **10,863,468** | **10,011,408** |



# Gwybodaeth Ariannol
## Cwmni Urdd Gobaith Cymru
## Canlyniad y Flwyddyn

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 2,050,977 | 147,608 |
| Gweddill/(Diffyg) ar werthu asedau a buddsoddion | 751 | (18,411) |
| | **2,051,728** | **129,197** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 166,169 | 8,417 |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio eiddo – heb eu realeiddio | - | - |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn cronfeydd** | **2,217,897** | **137,614** |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2018 | 18,630,283 | 18,492,669 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2019** | **20,848,180** | **18,630,283** |

**Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £11,333,764 o gronfeydd rhydd, £1,570,313 o gronfeydd cyfyng a £10,368 o gronfeydd gwaddol.**

**Mae'r cynnydd net am y flwyddyn o £2,217,897 (ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd) yn cynnwys gweddill o £2,483,260 ar gronfeydd rhydd a diffyg o £265,363 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.**